Cwyn yn cyrraedd S4C/aelod o'r Awdurdod. 1

Ysgrifennydd yr Awdurdod ('Yr Ysgrifennydd') yn cydnabod derbyn y gŵyn o fewn wythnos i'w derbyn a naill ai'n— 2

a. Esbonio i'r sawl sy'n cwyno nad oes unrhyw sail i'r gŵyn (os yw hyn yn addas a chywir); neu

b. Lle bo'r llythyr neu ohebiaeth yn sefydlu fod yna ryw sail o leiaf i'r gŵyn, cadarnhau y caiff y gŵyn ei hystyried gan yr Awdurdod yn unol â'r drefn arferol ac esbonio'r drefn honno i'r achwynydd, a naill ai:

b.i. Gofyn am eglurhad pellach neu fwy o fanylion er mwyn amlinellu'r gŵyn yn ddigonol (os yw hyn yn angenrheidiol); neu

b.ii. Cadarnhau y caiff y gŵyn ei chyfeirio at S4C am ei hymateb.

Unwaith y bydd amlinelliad digonol ar gael o'r gŵyn, bydd yr Ysgrifennydd yn ysgrifennu at Brif Weithredwr S4C i'w hysbysu o'r gŵyn (gan gynnwys copi o'r gŵyn gyda'r llythyr/nodyn) ac yn gwahodd S4C i ymateb i'r gŵyn o fewn cyfnod o dair wythnos o ddyddiad llythyr yr Ysgrifennydd. 3

Lle nad yw S4C yn ymateb i'r gŵyn o fewn y fath gyfnod o dair wythnos neu lle bo S4C yn datgan nad yw'n dymuno ymateb i'r gŵyn, yna bydd yr Ysgrifennydd yn trefnu y caiff y gŵyn ei chyfeirio at Bwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth Awdurdod S4C ('y Pwyllgor') ac yn hysbysu'r sawl sydd wedi cwyno ac S4C o hyn o fewn wythnos i dderbyn datganiad S4C neu i ddiwedd y cyfnod o dair wythnos (pa r'un bynnag sydd gyntaf). *Ymlaen i gam 8.* 4

Lle bo S4C yn ymateb i'r gŵyn o fewn y fath gyfnod o dair wythnos, bydd yr Ysgrifennydd o fewn y cyfnod o wythnos o dderbyn ymateb S4C: 5

a. Yn cydnabod derbyn yr ymateb i S4C; ac

b. Yn danfon at y sawl sydd wedi cwyno copi o'r ymateb ac yn rhoi cyfle i'r person hynny gynnig sylwadau yn ysgrifenedig mewn ymateb i sylwadau S4C/y cwmni cynhyrchu o fewn y cyfnod o bythefnos i ddyddiad y llythyr yn amgáu yr ymateb.

i. Lle bo'r sawl sydd wedi cwyno yn ymateb ac yn tynnu'r gŵyn yn ôl, fe fydd yr Ysgrifennydd yn cydnabod hynny ac yn cadarnhau wrth yr achwynydd ac S4C fod y broses o adolygu a dyfarnu ar y gŵyn yn cael ei therfynu. 6

ii. Lle nad yw'r sawl sydd wedi cwyno yn dewis cynnig unrhyw sylwadau pellach ar ymateb S4C/y cwmni cynhyrchu neu'n methu ag ymateb o fewn y fath gyfnod o bythefnos, yna bydd yr Ysgrifennydd yn trefnu y caiff y gŵyn ac ymateb S4C/y cwmni cynhyrchu iddi eu cyfeirio at y Pwyllgor ac yn hysbysu'r sawl sydd wedi cwyno ac S4C o hyn o fewn y cyfnod o wythnos i dderbyn ymateb yr achwynydd neu i ddiwedd y cyfnod o bythefnos (pa r'un bynnag sydd gyntaf).

iii. Lle bo'r achwynydd yn dewis cynnig sylwadau pellach ar bapur mewn ymateb i sylwadau S4C/y cwmni cynhyrchu ac yn llwyddo i wneud hynny o fewn y fath gyfnod o bythefnos, bydd yr Ysgrifennydd o fewn y cyfnod o wythnos o dderbyn sylwadau yr achwynydd:

iii.a. Yn cydnabod derbyn y sylwadau hyn i'r achwynydd; ac

iii.b. Yn danfon copi o'r sylwadau hyn at S4C ac yn rhoi un cyfle olaf i S4C a'r cwmni cynhyrchu i gynnig unrhyw sylwadau pellach ar bapur y maent yn dymuno i'r Awdurdod eu hystyried mewn ymateb i'r gŵyn a sylwadau pellach yr achwynydd. Eto, bydd llythyr/nodyn yr Ysgrifennydd yn gofyn iddi/iddynt ymateb o fewn y cyfnod o bythefnos i ddyddiad y llythyr yn amgáu sylwadau pellach yr achwynydd. *Ymlaen i gam 8.*

i. Lle nad yw S4C yn dewis cynnig unrhyw sylwadau pellach ar y gŵyn neu ail ddatganiad yr achwynydd neu'n methu ag ymateb o fewn y fath gyfnod o bythefnos, yna bydd yr Ysgrifennydd yn trefnu y caiff y gŵyn, ymateb S4C/y cwmni cynhyrchu iddi a sylwadau pellach yr achwynydd eu cyfeirio at y Pwyllgor a bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu'r sawl sydd wedi cwyno ac S4C o hyn o fewn y cyfnod o wythnos i dderbyn ymateb S4C neu ar ddiwedd y cyfnod o bythefnos (pa r'un bynnag sydd gyntaf). *Ymlaen i gam 8.*

ii. Lle bo S4C yn dewis cynnig sylwadau pellach yn ysgrifenedig mewn ymateb i'r gŵyn neu ail ddatganiad yr achwynydd ac yn llwyddo i wneud hynny o fewn y fath gyfnod o bythefnos, bydd yr Ysgrifennydd o fewn y cyfnod o wythnos i dderbyn sylwadau pellach S4C:

ii.a. Yn cydnabod derbyn y sylwadau hyn i S4C; ac

ii.b. Yn danfon copi o'r sylwadau hyn at yr achwynydd (ond er gwybodaeth yn unig). Ni fydd yr achwynydd yn cael trydydd cyfle i ddadlau ei (h)achos; ac

ii.c. Yn trefnu y caiff y gŵyn, ymateb cyntaf S4C/y cwmni cynhyrchu i'r gŵyn, ail ddatganiad yr achwynydd a sylwadau pellach S4C/y cwmni cynhyrchu eu cyfeirio at y Pwyllgor ac yn hysbysu'r sawl sydd wedi cwyno ac S4C o hyn.

7

Mae gan yr Awdurdod yr hawl i sefydlu is-bwyllgor i ystyried cwynion yn unol â'i bwerau o dan Atodlen 6 o'r Ddeddf Darlledu 1990.

Swyddogaeth yr is-bwyllgor bydd—
— I gwrdd rywbryd cyn y cyfarfod llawn nesaf o'r Awdurdod i wylio'r rhaglen ac i ystyried a thrafod y dogfennau a chyflwynwyd gan yr achwynydd a gan S4C/y cwmni cynhyrchu mewn ymateb i'r gŵyn;
— I gynnig eu hargymhellion i'r cyfarfod nesaf o'r Awdurdod ar y pwyntiau canlynol:

i. A yw'r gŵyn yn ddilys ai peidio;

ii. Os yw'r gŵyn yn ddilys, pa gamau sy'n briodol i wneud yn iawn i'r achwynydd–cyhoeddi'r dyfarniad ar y sgrîn, ymddiheuriad i'r achwynydd ar ffurf llythyr, cyhoeddi'r dyfarniad yn yr Adroddiad Blynyddol, camau cytundebol yn erbyn y cwmni cynhyrchu neu unrhyw gamau eraill?

iii. Dyfarniad drafft.

8

Yn y cyfarfod o'r Awdurdod wedi i'r Pwyllgor gwrdd, bydd yr Awdurdod yn trafod ac ystyried argymhellion y Pwyllgor ac yn penderfynu naill ai—

i. Eu mabwysiadu'n llawn neu'n rhannol; neu

ii. Yn dewis gwylio'r rhaglen ac ystyried y dogfennau sy'n perthyn i'r gŵyn gyda'i gilydd ac yn annibynnol o argymhellion y Pwyllgor.

9

Wedi i'r Awdurdod ddod i ddyfarniad, bydd yr Ysgrifennydd yn hysbysu'r achwynydd ac S4C ohono o fewn y cyfnod o wythnos ac yn cyfarwyddo S4C (ar ran yr Awdurdod) i gymryd unrhyw gamau y mae'r Awdurdod wedi dyfarnu yn briodol iddi eu cymryd yn sgîl y dyfarniad o fewn y cyfnod a nodir yn y dyfarniad.

10